

Nifer y busnesau Ar a oedd wedi cofrestru:
761

Nifer y busnesau Garddwriaeth a oedd wedi cofrestru
359

Gweminarau



Gweminar Cynllun Troi'n Organig – 30 o fynychwyr

Roedd y Cynllun Troi'n Organig yn gynllun cymorth a oedd yn seiliedig ar faes penodol, a oedd ar gael i gynhyrchwyr amaethyddol ar draws Cymru a oedd yn dymuno troi o system gynhyrchu gonfensiynol i system gynhyrchu organig. Ymunodd Llywodraeth Cymru â Cyswllt Ffermio am weminar a oedd yn cyflwyno gwybodaeth bellach am y cymorth sydd ar gael i unigolion yn y diwydiant trwy gyfrwng Cynllun Troi'n Organig. Trwy gynorthwyo ffermwyr yn ystod y cyfnod troi a oedd yn para dwy flynedd, nod y cynllun oedd darparu cymorth er mwyn cynnig manteision rheoli tir amgylcheddol cadarnhaol.

Hyfforddiant



Roedd **228** o hawliadau am gyrsiau a gafwyd yn ystod y cyfnod, yr oedd **98** ohonynt ar gyfer cyrsiau a oedd yn ymwneud â'r tir. Dangosir rhai o'r cyrsiau hyn yn y tabl isod:

Cwrs:	Nifer yr unigolion a hyfforddwyd yn ystod y cyfnod hwn:
Tryc Codi Telesgopig Tir Garw	22
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn, Trawstorri, Cwmpo a Phrosesu Coed hyd at 380mm	13
Dyfarniad L2 mewn Defnydd Diogel Plaeiddiaid (PA1) a (PA2)	12
Dyfarniad L2 mewn Defnydd Diogel Plaeiddiaid (PA1) a (PA6)	9
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawstorri	8

Rhwydwaith Arddangos

Fferm Gate: Ymchwilio i ddulliau trin lleiaf er mwyn cynyddu amrywiaeth porfa mewn gwyndonnydd pori organig a sefydlu cnwd toriad bresych er mwyn ymestyn y tymor pori

Aeth y prosiect ati i archwilio gwahanol dechnegau sefydlu tros-hadu gan ddefnyddio cymysgeddau aml-rywogaeth i wella ansawdd y gwyndonnydd ac amrywiaeth yn rhywogaethau'r planhigion, yn ogystal â gwead a strwythur y pridd mewn platfform pori glaswelltir organig. Yn ogystal, nod y prosiect oedd archwilio dull sefydlu trin lleiaf ar gyfer cnwd toriad bresych mewn gwyndwn porfa, i ymestyn y tymor pori a gaefu stoc ifanc yn yr awyr agored, ac ail-hadu'r gwanwyn canlynol.

Cynhaliwyd diwrnod agored llwyddiannus ar 6 Gorffennaf, a fynychwyd gan dros 20 o ffermwyr. Yn ystod y diwrnod agored, rhannwyd y prif ganfyddiadau isod:

- Amcangyfrifwyd bod tros-hadu meillion a rhygwellt parhaol wedi cynyddu cynnwys y rhygwellt parhaol i 70%
- Mae'r perlysiâu a gyflwynwyd yn fwy gwasgaredig, ac yn ymddangos mewn rhannau o'r cae lle'r oedd y gorchudd daear dan 70%
- Roedd sefydliad y cnydau bresych yn dda am fferm organig, a rhagwelwyd y byddai pwysau'r cnwd tua 3 tunnell/ha
- Byddai pob hectar yn bwydo 40 o heffrod sy'n pwysu 400 cilogram am tua naw diwrnod
- Yn ddefnyddol, dylid pori'r cae mewn sribedi a rhoi gwellt allan mewn da bryd, gan ganiatáu tua 4kg o wellt y pen y dydd
- Dylid ychwanegu mwynau hefyd, naill ai trwy gyfrwng bolws neu fwynau mynediad rhydd yn y cae.

Prosiect Pridd Cymru

Mae amaethyddiaeth yn gyfrifol am gyfran o'r allyriadau nwy tŷ gwydr yn yr atmosffer. Fodd bynnag, gall systemau ffermio atafaelu (gwaredu) carbon o'r atmosffer hefyd.



Gall priddoedd atafaelu neu ryddhau carbon, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau, megis:


- defnydd tir
- arferion rheoli
- math o bridd
- hinsawdd

Mae newidiadau mewn stoc carbon pridd yn digwydd yn raddol dros sawl blwyddyn, a bydd cronni dros gyfnod o amser yn arwain at gydbwysedd. Mae hyn yn golygu bod meintoli gwaelodlin gyffredin mewn stociau carbon pridd yn her. Fodd bynnag, mae mesur cynnwys carbon mewn priddoedd yn darparu ffigurau defnyddiol at ddibenion meincnodi yn y dyfodol.

Nod Prosiect Pridd Cymru yw pennu stoc carbon pridd caeau lluosog o systemau ffermio amrywiol ar draws y Rhwydwaith Arddangos.

Defnyddir y data manwl a gesglir fel rhan o'r prosiect hwn i gynnig dirnadaeth o'r stociau carbon presennol mewn pridd ar draws gwahanol systemau ffermio. Bydd yn dangos hefyd sut y gall stoc carbon mewn

pridd wahaniaethu o fewn un system ffermio, yn ogystal â rhwng gwahanol systemau ffermio, gan ddibynnu ar ddefnydd tir a'r arferion rheoli a weithredir. Tynnwyd samplau pridd o dri gwahanol ddyfnder (Ffigur 1), hyd at 50cm pan oedd modd, er mwyn rhoi dealltwriaeth well o'r cynnwys carbon mewn pridd ar wahanol ddyfnderau.




Ffigur 1: Tri dyfnder amrywiol ar gyfer samplu pridd.

Dewiswyd pum cae a oedd yn destun gwahanol arferion rheoli at ddibenion samplu pridd i nodi unrhyw wahaniaethau, Tabl 1.

1	Cae porfa barahol (>1 mlynedd)
2	Cae silwair a/neu wair
3	Cae sydd wedi ei ail-hadu yn ddiweddar (1-7 mlynedd)
4	Cae pori'n unig
5	Arall – e.e. tir â'r, mawnog, gwndwn llysieuol, stoc wedi eu cau allan

Tabl 1: Fields sampled under different management practices.

Isod, cyflwynir y canlyniadau a sicrhawyd hyd yn hyn:



Tabl 2: Deunydd Organig Cyfartalog y Pridd (%) are gyfer bob dyfnder samplu o fewn bob math o gae.

STOC CARBON PRIDD

Troswyn canlyniadau Ddeunydd Organig i Ddeunydd Carbon y Pridd (sef prif gyfansoddyn Ddeunydd Organig y Pridd). Yna, defnyddiwyd y ffigurau hyn, ynghyd â'r data dwysedd swmp (pwysau pridd sych o fewn cyfaint diffiniedig), er mwyn amcangyfrif stoc garbon y priddoedd a samplwyd, wedi'i fynegi mewn tunnell fesul hectar.

Dyfnder pridd (cm)	Rhif y cae			
	1	2	3	4
0-10	32.3	30.6	32.6	33.1
10-30	56.9	49.7	59.7	58.3
30-50	46.7	40.6	47.0	45.8

Tabl 3: Stoc Garbon Gyfartalog y pridd (t/ha) are gyfer bob dyfnder samplu o fewn bob math o gae.

Am fwy o wybodaeth ac i ddilyn datblygiadau'r prosiect, ewch draw i businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/tir/pridd/rhwydwaith-arddangos-cyswllt-ffermio-prosiect-pridd-cymru.

Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

 PEIRIANNAU COETIROEDD, EFFEITHIAU AR Y PRIDD A CHAMAU LLINIARU

 BIOAMRYWIAETH A THECHNOLEG



Cyfnewidfa Rheolaeth

Dan Jones

Mae Dan yn ffermwr sy'n denant ar Fferm Parc, sef fferm 150 erw sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac sy'n ymestyn i 900 erw o hawliau pori ar Ben y Gogarth. Magwyd Dan ar fferm deuluol ar Ynys Môn, ac mae wedi graddio mewn amaethyddiaeth a gwyddor anifeiliaid, cyn mynd ymlaen i weithio fel technegydd ymchwil defaid. Aeth ymlaen i gael ei denantiaeth fferm ei hun, ac yn ystod y cyfnod hwn, bu'n gweithio fel bugail ar yr Wyddfa ar gyfer prosiect pori cadwraeth, lle y darganfu'r hyn y mae'n teimlo'n angerddol amdano: "Mae'n hanfodol bod ffermio, cadwraeth ac atafaelu carbon yn cydweithio. Mae lleihau swm y carbon deuocsid yn yr aer yn hanfodol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd."

Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi cael cymorth trwy gyfrwng Categoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Cafodd 32 o unigolion gymorth un-i-un trwy gyfrwng Categoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Cafodd 97 o grwpiau gymorth trwy gyfrwng Categoriâu Tir y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Grwpiau trafod

Grŵp Âr Sir Benfro



Roedd grŵp trafod o Ynys Môn wedi mynegi eu pryderon ynghylch costau cynyddol mewnbynnau fferm. Estynnwyd gwahoddiad i Wyn ac Eurig Jones o Bantyderi yn Sir Benfro i ddod i sôn am eu cnwd cymysg o bys a barlys. Mae wedi arbed £33t mewn costau dwysfwyd, neu gyfanswm o £5588 ar gyfer y fenter pesgi gwartheg eidion.

Roedd prif fanteision tyfu pys a ffa gyda'i gilydd fel a ganlyn:

- Mae pys yn darparu gorchudd cnwd cynnar, sy'n mygu chwyn wrth iddynt geisio ymsefydlu
- Mae ffa yn darparu 'sgaffald' cadarn sy'n helpu i gadw'r cnwd yn sefyll i fyny yn syth yn nes ymlaen yn ystod y cyfnodau tyfu
- Mae astudiaethau'n dangos bod cynydu cymysg yn tueddu i gynhyrchu mwy na phan fyddant yn cael eu tyfu ar eu pen eu hunain
- Mae pys yn llenwi'r pocedi aer rhwng y ffa yn y cladd, gan helpu i greu'r amodau anaerobig cywir ar gyfer silweirio
- Allbwn ac elw gwell fesul hectar

Driliwyd y cynydu i mewn ar 22 Ebrill mewn dau gam – heuwyd y pys ar ddyfnder o 75mm, yna'r ffa ar ddyfnder o 50mm. Ni roddwyd unrhyw wrtaith.

Un o brif pryderon y grŵp oedd cynaeafu'r cynydu. Cychwynnodd y gwaith cynaeafu ym Mhantyderi ar 3 Medi, gyda chylllell ochrog wedi'i gosod ar y combein er mwyn casglu'r pys. Ac eithrio'r ffaith y bu'n rhaid glanhau gograu'r combein yn ystod y diwrnod cyntaf (gan fod y cnwd ychydig yn llai o gwmpas ymylon y cae), cynaeafwyd y cnwd yn gymharol hawdd.

Cynhyrchodd y cnwd 5.25T o bys a ffa a 22 o fyrnau gwellt. Roedd wedi costio £432/ha i'w dyfu, £100/ha i'w gynaeafu a £24/ha i'w grimpio. Roedd hyn yn cyfateb â phrynu dwysfwyd o 86% DS am £117/t. O ran y gost, roedd yn costio pedair ceiniog yn llai y pen i fwydo'r gwartheg stôr a 21 ceiniog y dydd yn llai i fwydo'r gwartheg pesgi.

Un fantais ychwanegol, a rhywbeth a oedd o ddiddordeb i'r grŵp, oedd bod modd sicrhau arbedion sylweddol o ran nitrogen (N) ar gyfer y cnwd barlys dilynol. Amcangyfrifwyd y byddai'r N gweddilliol a adawyd gan y cnwd pys a ffa yn 100kgN/ha.

Mae'r grŵp yn debygol o fabwysiadu'r arfer o dyfu pys a ffa fel cnwd cymysg ar eu ffermydd eu hunain yn ystod y gwanwyn nesaf.

EIP Cymru



Fferm Llwyn y Brain

Wrth ei bwynt uchaf, sef 430 metr, mae'r tir y mae John a Sarah Yeomans a'u teulu yn ei ffermio yn gallu bod yn amgylchedd heriol er mwyn tyfu porfa yn ystod y tymhorau sydd bob pen i'r prif dymor, ond trwy gynnwys rhonwllt mewn cymysgedd hadau, mae gwyndonnydd yn cynnig 10tDS/ha ar gyfartaledd.

Gall rhonwllt dyfu pan fo tymheredd y pridd yn 0°C a thymheredd yr aer yn +5°C.

Hon yw'r brif rywogaeth porfa a dyfir yn y Ffindir, lle y mae'n arferol cael rhew ac eira ym mis Ebrill, wythnosau yn unig cyn y toriad cyntaf ym mis Mehefin.

Ar ôl ymweld â'r Ffindir ar Raglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio, mae Mr Yeomans wedi bod yn treialu ei ddefnydd mewn pridd mawn dwfn a gwlyb yn ei system defaid a biff yn Llwyn y Brain, Adfa, ger Y Drenewydd.

Bellach, mae'r treial hwnnw, a oedd yn rhan o astudiaeth Partneriaeth Arloesi Ewropeaidd (EIP) Cymru dair blynedd, gyda mewnbyn gan arbenigwyr glaswelltir o'r Ffindir, Anu Ellä a Jarkko, wedi dod i ben.

Mae'r canlyniadau wedi argyhoeddi Mr Yeomans y bydd lle i ronwllt yn ei system o hyn ymlaen.

Roedd gwyndynnau a oedd wedi sefydlu'n dda yn 2019 wedi sicrhau mwy na 12tDS/ha ar gyfartaledd yn 2021, gan ddarparu porthiant gwerthfawr i 58 o famogiaid ac ŵyn yr hectar am bron i dri mis, a chan ymestyn tyfiant yn hwyr yn ystod y tymor yn sylweddol.

"Roedd wedi cynyddu'r cynhyrchiant yn sylweddol o fis Mai i ddiwedd mis Mehefin," adroddodd Mr Yeomans.

Yn 2022, gwelwyd canran rhonwllt mewn un o'r lleiniau yn cynyddu i 25% – i fyny o tua 10% yn 2020.

Dywedodd Chris Duller, arbenigwr glaswelltir annibynnol sydd wedi bod yn darparu mewnbyn technegol i brosiect EIP, ynghyd â Dr Iwan Owen o IBERS, yr arsylwyd cynnydd bach tebyg mewn rhonwllt mewn rhai o'r lleiniau gwreiddiol eraill hefyd – y rhai yr oeddent wedi profi amodau sefydlu heriol oherwydd lefelau glawiad eithriadol o uchel.

Dim ond 40kgN/ha a roddwyd tan ddiwedd mis Mehefin; mae'n debygol mai 80kg fydd y cyfanswm yn 2022, o'i gymharu â 120kgN/ha yn 2021, gan fod amodau anodd ar y ddaear wedi atal defnydd ohono yn y gwanwyn.

Yn ystod diwrnod agored ar y cyd a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng EIP Cymru a Chyswllt Ffermio yn Llwyn y Brain, dywedodd Mr Duller mai un o brif ganfyddiadau'r treial oedd bod rhonwllt wedi tyfu mor dda â rhygwllt ym mhob un o'r lleiniau ond un.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth yng ngwerthoedd protein ac egni rhonwllt a rhygwllt, er gwaethaf y disgwyliad y byddai ansawdd y rhygwllt yn uwch.

Ond roedd y treial wedi awgrymu mai canran uchaf rhonwllt y byddai modd ei sicrhau mewn unrhyw un o'r lleiniau oedd 25%, beth bynnag fo cyfradd hau'r hadau.

"Yn y dyfodol, os ydym yn dymuno cynyddu amrywiaeth porfa, mae'n awgrymu bod angen i ni ystyried cynyddu canran gwyndonnydd aml-rywogaeth sy'n cynnwys mathau eraill o borfa hefyd," dywedodd Mr Duller.

Dim ond yn nes ymlaen yn y dyfodol y bydd modd deall hirhoedledd rhonwllt o'i gymharu â rhygwllt (un o fanteision allweddol y rhywogaeth hon), dywedodd.

Ond mae Mr Yeomans yn ddiolchgar am amserlen dair blynedd prosiect EIP: "Rhaid i chi dreialu rhywbeth am dair blynedd er mwyn gwybod a fydd yn gweithio neu beidio, oherwydd y gall blwyddyn eithriadol o dda, neu un eithriadol o wael, wyro'r canlyniadau mewn amserlen fyrrach."

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

AMAETHFFERYLLOL – CENNIN PEDR A CHLEFYD ALZHEIMER



SYSTEMAU PORI



NEWID HINSAWDD A RHEOLI TIR



AMAETHYDDIAETH AMGYLCHEDD DAN REOLAETH



Cliciwch yma i droi at y wefan.



www.llyw.cymru/cyswlltffermio